RHAGLEN ADDYSG PDSA

Teitl

Paratoi ar gyfer yr Anifail Anwes Cywir

Amrediad oedran

5-7

Testun

Dewis anifail anwes addas

Pwnc

Mathematics and Numeracy/Health and Wellbeing

Gweithgareddau a Gwmpesir

Data a dadansoddi

Arian

Deilliannau Cyflawni

Rwy'n gallu deall pwysigrwydd defnyddio arian yn gyfrifol ac rwy'n gallu gwahaniaethu rhwng dymuniadau ac anghenion.

Rwy'n gallu cymryd rhan mewn penderfyniadau grŵp a deall pam mae angen gwneud rhai penderfyniadau fel grŵp.

Rwyf wedi ymchwilio a chasglu data sydd yn fy amgylchedd.

Rwy'n gallu cofnodi data, gan roi ystyr i farciau sy'n cynrychioli rhif a lle mae pob swm yn cyfateb i rywbeth yn y byd go iawn, gan gadw cofnodion syml sy'n cynnwys cyfrif a phictogramau.

Amcanion dysgu

Dylai disgyblion fod yn ymwybodol o'r holl bethau y mae angen i chi eu hystyried cyn cael anifail anwes.

Dylai disgyblion sylweddoli bod pobl yn gyfrifol am ofalu am eu hanifeiliaid anwes.

Dylai disgyblion allu deall bod anifeiliaid anwes yn costio arian i ofalu amdanyn nhw.

Deilliannau dysgu

Pawb: Bydd pawb yn deall mai nhw sy'n gyfrifol am eu hanifeiliaid anwes.

Y rhan fwyaf: Bydd y rhan fwyaf yn gallu siarad am yr hyn y byddai angen iddyn nhw ei ystyried cyn cael anifail anwes.

Rhai: Bydd rhai yn gallu rhoi enghreifftiau o anifeiliaid a fyddai'n gwneud anifeiliaid anwes addas ac yn egluro eu rhesymu.

Geiriau allweddol

PDSA	Milfeddyg	Elusen	Ymddygiad
Ffordd o fyw	Deiet	Lle	Dewis
Anifail Anwes	Hapus	Rhesymau	Ysbyty Anifeiliad Anwes
Dig	Peryglus	Cyfrifoldeb	Ymarfer corff
Biliau milfeddygol	Ymchwil	Iach	Cartref am byth

Cwestiynau allweddol

A fyddai .... yn gwneud anifail anwes da ai peidio?
Allwch chi eu cadw nhw'n hapus ac yn iach?
Ydych chi'n gwybod digon am yr hyn sydd ei angen arnyn nhw?
Oes gennych chi ddigon o amser i ofalu amdanyn nhw?
Allwch chi roi cartref am byth iddyn nhw?

Adnoddau

Cyflwyniad PowerPoint
Offer AV

Gweithgaredd	Athro	Disgybl	Amser
Sleid 1: Cyflwyniad	Rhowch drosolwg byr o fwriad y sesiwn.		Uchafswm o 2 funud
Sleid 2: PDSA (trosolwg)	Esboniwch fod PDSA yn elusen sy'n gofalu am anifeiliaid anwes pan na all perchnogion fforddio mynd â nhw at y milfeddyg.	Trafodaeth mewn parau ac yna atebion: - Pam mae milfeddygon a nyrsys milfeddygol yn bwysig? - Beth yw elusen? - Beth ydych chi'n meddwl fyddai'n digwydd i'r anifeiliaid anwes sâl a'r rhai sydd wedi'u hanafu pe na bai PDSA yn bodoli?	3-5 munud
Sleid 3: Fy Anifeiliaid Anwes	Dywedwch wrth y plant am eich anifail/anifeiliaid anwes a rhannwch straeon doniol amdano/amdanyn nhw.	Mae gan y plant 30 eiliad i ddweud stori ddoniol am eu hanifail anwes wrth y plentyn nesaf atyn nhw. Os nad oes gan y plentyn anifail anwes, gallen nhw ddewis un oddi ar y teledu/o ffilm. Gwrandewch ar ychydig o ymatebion gan y dosbarth.	3-5 munud
Sleid 4: Anifail anwes neu beidio	Gofynnwch i'r disgyblion bleidleisio a fyddai'r anifeiliad yn y lluniau'n gwneud anifail anwes da ai peidio	Pleidlais dosbarth	1/2 funud

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

RHAGLEN ADDYSG PDSA

Gweithgaredd	Athro	Disgybl	Amser
Sleid 5: Beth sydd ei angen ar Anifeiliaid Anwes?	Trafodwch y 5 Angen Lles. Gofynnwch pwy sy'n gyfrifol am gadw anifeiliaid anwes yn iach ac yn hapus. Cadarnhewch mai perchnogion sy'n gyfrifol am ofalu am eu hanifeiliaid anwes yn iawn.	30 eiliad yn siarad gyda'r unigolyn nesaf atyn nhw. Yna 30 eiliad yn siarad ag un unigolyn arall. Rhoi adborth i'r dosbarth.	2 funud
Sleid 6: Meddyliwch am ANIFEILIAID ANWES	Trafodwch y sleid gan ddefnyddio'r nodiadau.		2 funud
Sleid 7: Gwnewch eich gwaith cartref!	Defnyddiwch nodiadau'r sleidiau. Cymharwch yr ymchwil â gwneud eu gwaith cartref eu hunain. Fydden nhw'n dda mewn Mathemateg pe na baen nhw'n gwneud eu gwaith cartref?		1 funud
Sleid 8: Anifeiliaid anwes y dosbarth	Gofynnwch i'r dosbarth pa anifeiliaid anwes sydd ganddyn nhw.	Mae'r disgyblion yn llenwi siart cyfrif ar gyfer yr anifeiliaid anwes yn eu dosbarth neu yn eu grŵpiau bach.	5 munud
Sleid 9: Mae cŵn angen...	Esboniwch beth sydd ei angen ar gi i'w gadw'n hapus ac yn iach gan ddefnyddio'r sleid. Efallai yr hoffech chi ddefnyddio eich propiau neu'r symudiadau i'ch helpu chi.		2 funud
Sleid 10: Mae cathod angen...	Esboniwch beth sydd ei angen ar gath i'w chadw'n hapus ac yn iach gan ddefnyddio'r sleid. Efallai yr hoffech chi ddefnyddio eich propiau neu'r symudiadau i'ch helpu chi.		2 funud
Sleid 11: Mae cwningod angen...	Esboniwch beth sydd ei angen ar bâr o gwningod i'w cadw'n hapus ac yn iach gan ddefnyddio'r sleid. Efallai yr hoffech chi ddefnyddio eich propiau neu'r symudiadau i'ch helpu chi.		2 funud
Sleid 12: Ystyriwch...	Gofynnwch i'r disgyblion gau eu llygaid a meddwl am anifail anwes o'u dewis. Gofynnwch y cwestiynau ar y sleid a'u cael nhw i drafod eu hatebion gyda'u cyfoedion.		4/5 munud
Sleid 13: Costau oes cyfartalog – ci	Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu pa ffigur sydd agosaf at gost gyfartalog bod yn berchen ar gi.	Pleidlais dosbarth	1 funud
Sleid 14: Costau oes cyfartalog – cath	Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu pa ffigur sydd agosaf at gost gyfartalog bod yn berchen ar gath.	Pleidlais dosbarth	1 funud
Sleid 15: Costau oes cyfartalog – cwningen	Gofynnwch i'r disgyblion ddyfalu pa ffigur sydd agosaf at y gost gyfartalog o fod yn berchen ar bâr o gwningod.	Pleidlais dosbarth	1 funud
Sleid 16: Gweithgaredd cost	Dosbarthwch y gweithgaredd rhestr siopa ac esboniwch y dasg wrth y disgyblion. Esboniad o'r dasg ar nodiadau'r sleidiau.	Mae'r disgyblion yn llenwi'r symiau ar eu templedi rhestr siopa. Gall plant iau/plant gallu isel ysgrifennu'r symiau ar y rhestr heb eu hadio at ei gilydd.	5-10 munud
Sleid 17: Rhestr Brisiau	Dangoswch y sleid hon drwy gydol y gweithgaredd.		
Sleid 18: Atebion	Dangoswch y cyfanswm ar gyfer pob rhestr a gofynnwch i'r disgyblion a gawson nhw'r un atebion.		2 funud
Sleid 19: Perci	Rhannwch stori Perci gyda'r dosbarth.		1/2 funud
Sleid 20: Costau Perci	Rhannwch gostau Perci gyda'r dosbarth ac esboniwch fod hyn yn llawer o arian.		1 funud

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585

RHAGLEN ADDYSG PDSA

Nodiadau

Mae'r amseriadau'n rhai bras ac yn dibynnu ar eich dosbarth.

Gellir gwneud unrhyw weithgaredd llafar ar bapur hefyd. Mae'n dibynnu ar yr ystafell a'r amser.

Gweler nodiadau'r sleidiau ar gyfer nodiadau manylach.

Gweithgaredd	Athro	Disgybl	Amser
Sleid 21: Fideo Diwrnod Anifeiliaid Anwes	Chwaraewch y fideo		4 munud
Sleid 22: Diolch	Diolch gan PDSA		30 eiliad

Gweithgaredd ymestyn

Mae gweithgareddau ymestyn ar gael ar dudalen lawrlwytho Gwobr Ysgol PetWise.

Addasiadau ar gyfer anghenion ychwanegol

Gellir golygu'r PowerPoint fel y gellir newid y ffontiau a'u gwneud yn fwy o faint.
Gellid newid y sgrin/lliw cefndir hefyd os oes angen.

Efallai y bydd angen goruchwyliaeth oedolyn ar rai plant.

Amlinellwch beth fydd yn digwydd yn y sesiwn i blant ag ASD, tynnwch synau o sleidiau a rhagrybuddiwch yr athro am unrhyw fideos.

Peidiwch â digalonni os bydd plentyn ag ASD yn ei chael hi'n anodd dangos emosiwn gan y gallai hyn fod yn rhan o'i gyflwr.

Gwerthusiad

© The People's Dispensary for Sick Animals 12/21
Elusen gofrestredig rhif 208217 a SC037585